Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Bro Teifi**

**Ysgol Bro Teifi**
**Horeb**
**Llandysul**
**SA44 4JL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Bro Teifi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Bro Teifi |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus iawn, wedi setlo ac yn hyderus i fynegi eu barn. Maent yn gwneud ffrindiau'n hawdd, ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn fawr ac yn dysgu sut i ddod yn annibynnol.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn llawn cymhelliant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda, gan gynnig amrywiaeth bwrpasol o weithgareddau yn seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod dda o adnoddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal plant o ansawdd uchel. Maent yn rhoi llawer o anogaeth a chymorth i'r staff. Mae'r polisïau a'r cofnodion gofynnol ar waith. Mae'r rhieni'n canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant Da

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Maent yn dewis pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a'r adnoddau y maent am chwarae â nhw. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis chwarae yn y gornel gartref, yn cwblhau gweithgareddau crefft ar gyfer y Pasg, ac yn adeiladu tyrau gan ddefnyddio teils magnetig. Mae'r plant yn dewis os ydynt am ymlacio neu barhau i chwarae, ac os ydynt am chwarae y tu mewn neu yn yr awyr agored, ac mae'r staff yn parchu eu penderfyniad.

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn awyddus i weld y staff a'u ffrindiau. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r staff ac maent yn gwybod y bydd staff yn eu helpu a'u cefnogi. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, sy'n eu helpu i setlo ac i deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn gwybod y dylid golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac amser bwyd, ac yn mwynhau gweithgareddau amser cylch dyddiol fel canu hwiangerddi a chyfrif.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn rhyngweithio â'i gilydd a'r oedolion yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Gwelsom y plant yn rhannu adnoddau ac yn cydweithredu â'i gilydd wrth chwarae yn yr awyr agored yn rholio ac yn dal y cylchoedd hwla. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn egnïol, yn cymryd rhan ac yn chwarae gyda'i gilydd yn dda. Mae'r plant iach yn dechrau rhannu ac yn datblygu eu sgiliau gyda chymorth gan yr oedolion. Er enghraifft, mae'r staff yn atgoffa'r plant i rannu ac i ddefnyddio dwylo caredig gyda'u ffrindiau. Mae'r plant yn archwilio'r amgylchedd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad y plentyn yn bennaf.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael iddynt yn y lleoliad ac maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain, gan chwilio am adnoddau a chyfarpar. Maent yn ymgymryd â chyfleoedd chwarae pwrpasol. Gwelsom enghreifftiau o'r plant yn palu, yn cymysgu ac yn troi yn y gegin fwd, ac roedd eraill yn gofalu am y doliau, gan ddangos empathi a gofal wrth newid cewyn y ddol. Mae'r plant yn archwilio'r ardal awyr agored yn hyderus ac yn mwynhau cyfleoedd chwarae corfforol wrth ddringo i fyny'r llithren a llithro i lawr.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas. Maent yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio'r ystafelloedd ymolchi yn annibynnol, neu gyda chymorth yn ôl yr angen. Yn ystod amser cinio, mae'r plant yn bwydo eu hunain yn fedrus ac yn helpu'r staff i dacluso. Maent yn dysgu sut i dynnu eu cotiau wrth ddychwelyd o fod yn chwarae yn yr awyr agored, ac mae'r plant hŷn yn gwneud eu hunain yn barod i fynd i'r ysgol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu ac o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau a digwyddiadau yn gywir. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r staff yn cadw cofrestrau presenoldeb ar eu cyfer nhw ac ar gyfer y plant, ac ar gyfer unrhyw un sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r wybodaeth am alergeddau unigol yn gyfredol ac yn cael ei harddangos yn glir ym mhob ystafell. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i hybu ffordd iach o fyw. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau drwy olchi eu dwylo ar ôl newid cewynnau a chyn paratoi bwyd. Maent yn cynnal amgylchedd sy'n hylan, gan olchi'r byrddau yn rheolaidd, glanhau cwpanau/poteli a hwfro'r lloriau. Mae'r byrbrydau sy'n cael eu darparu yn faethlon ac mae'r staff yn cynnig llaeth neu ddŵr.

Mae'r staff yn amyneddgar, yn ofalgar ac yn garedig wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad amhriodol yn gyflym ac yn bwyllog i'w atal rhag gwaethygu. Er enghraifft, pan ddechreuodd un plentyn gymryd tegan oddi wrth blentyn arall, aeth aelod o'r staff ati i ymyrryd yn gyflym drwy dynnu ei sylw a chynnig tegan gwahanol iddo. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu iddynt deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn siarad yn barchus â'i gilydd ac yn fodelau rôl da i'r plant. Mae'r staff yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt.

Mae'r staff yn dechrau rhoi system newydd ar waith i fonitro a chynllunio datblygiad a chynnydd y plant yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Maent wrthi'n datblygu system newydd i gynllunio gweithgareddau a chyfleoedd ysgogol i'r plant ddysgu drwy waith cynllunio yn y foment. Maent hefyd wedi rhoi system newydd ar waith sy'n galluogi'r gweithwyr allweddol i arsylwi ar y plant, fel eu bod yn ymwybodol o'u diddordebau a'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer camau datblygiad nesaf y plant ac i olrhain eu cynnydd, gyda'r bwriad o rannu hyn â'r rhieni yn ystod nosweithiau rhieni.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr gwych, sy'n darparu lle cyfforddus i'r plant ymlacio, chwarae a dysgu. Mae mynedfa'r lleoliad yn ddiogel ac mae pob drws a giât yn cael eu cadw ar glo. Wrth gyrraedd y lleoliad, roedd yn rhaid i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr a dangos manylion adnabod. Mae gweithdrefnau brys, mesurau tân a mesurau rheoli heintiau da ar waith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl wiriadau diogelwch hanfodol ar gyfer yr adeilad yn gyfredol, ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol o bob ardal. Mae asesiadau risg ar waith ac mae'r staff yn eu dilyn. O ganlyniad, mae'r staff yn gwybod pa ardaloedd nad ydynt yn gwbl ddiogel i'r plant, megis ardal y gegin.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd dan do ac awyr agored i'r plant sy'n cynnig digon o le, sy'n addas i blant ac sy'n olau. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cynnig awyrgylch cynnes a chroesawgar i'r plant o'r eiliad y byddant yn cyrraedd. Mae ystafell chwarae fawr iawn ar gael ac mae modd ei rhannu'n ddwy ystafell, sy'n galluogi'r plant i gael eu rhannu'n grwpiau yn ôl eu hoedran a'u cam datblygiad, neu ar gyfer grwpiau rhieni a phlant bach. Mae hyn yn golygu bod digon o le i'r plant chwarae a dysgu ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw. Mae gan yr ystafelloedd dan do gorneli tawel a goleuadau llai llachar, sy'n cynnig cyfle i'r plant orffwys ac ymlacio yn ogystal ag ymgymryd â chyfleoedd chwarae ysgogol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn hygyrch.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol sy'n cynnig amrywiaeth a dewis i'r plant. Mae'r dodrefn, y teganau a'r cyfarpar o ansawdd da, ac yn briodol ar gyfer datblygiad y plant. Gwelsom amrywiaeth o adnoddau fel blociau, cerbydau, posau, jig-sos, llyfrau, doliau a theils magnetig. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig ardal fawr a chroesawgar lle gall y plant archwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas, a meithrin amrywiaeth o sgiliau. Mae hyn yn cynnwys pwll tywod, llithren, cegin fwd, awyren bren, cylchoedd hwla, a cherrig camu. Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau i bob oedran a cham datblygu, sy'n cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y plant. Er enghraifft, drwy chwarae rôl, chwarae adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd a gweithgareddau creadigol. Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfleoedd dysgu er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn bwrw ati i'w rhoi ar waith yn ymarferol. Maent wedi cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ac yn trefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol. Mae'r arweinwyr yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig.

Mae systemau hunanwerthuso effeithiol ar waith. Maent yn gofyn barn y plant, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Fel rhan o'r adolygiad, maent yn myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a sut y gallant wella. Mae'r arweinwyr yn arwain drwy esiampl, ac yn cynnig amgylchedd effeithiol a chefnogol ar gyfer gweithio fel tîm. Mae ethos tîm cryf yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu llesiant y staff ac yn gwerthfawrogi eu tîm.

Mae ffeiliau'r staff yn drefnus iawn, ac yn dangos tystiolaeth o'r holl wiriadau perthnasol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff y broses sefydlu ei chwblhau. Mae'r arweinwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, sy'n eu galluogi i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r staff yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staff er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau â'r rhieni a'r gofalwyr. Maent yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol, sy'n gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant a'r teuluoedd sy'n mynychu'r lleoliad. Maent yn gwneud ceisiadau am gyllid grant i ddatblygu'r ddarpariaeth, sydd o fudd i'r rhai sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r rhieni yn cael gwybod am ddiwrnod eu plentyn drwy dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a negeseuon e-bost. Mae'r arweinwyr hefyd yn gwahodd y rhieni i ddod i ddigwyddiadau amrywiol fel taith tractor, cystadleuaeth hetiau Pasg a raffl, diwrnod hwyl yr haf a sioe ffasiwn i godi arian. Maent yn gwahodd ymwelwyr fel y gwasanaeth tân i ddod i'r lleoliad er mwyn gwella profiadau dysgu'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Parhau i roi egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/04/2024